Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Adolygiad Ymarfer Oedolion

Dyddiad Cymeradwyo	
Dyddiad Adolygu	Medi 2018

1.0. Cyd-destun

1.1. Datblygwyd y protocol hwn i egluro trefniadau Adolygiadau Ymarfer Oedolion ardal Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru. Mae'r ddogfen yn canolbwyntio ar egwyddorion ehangach Adolygiadau Ymarfer Oedolion cyn i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wneud penderfyniad i gomisiynu Adolygiad Ymarfer Oedolion ffurfiol neu Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol. Mae egwyddorion ategol y protocol hwn yn seiliedig ar y canlynol:

- Penderfyniadau cyson ar draws gogledd Cymru o ran Adolygiadau Ymarfer Oedolion
- Ymgysylltiad amlasiantaethol ar bob lefel
- Bod yn agored a thryloyw wrth wneud penderfyniadau

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r dogfennau allweddol canlynol:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl (Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cod Ymarfer Rhan 8 ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Cylch Gorchwyl Is-Grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion
- Cylch Gorchwyl ar y Cyd Grwpiau Cyflenwi Adolygiadau Ymarfer Lleol

2.0. Pwrpas Adolygiadau Ymarfer Oedolion

2.1. Yn unol â Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015, mae gan Fyrddau Diogelu Oedolion gyfrifoldeb statudol i gynnal adolygiadau ymarfer amlasiantaethol pan fo digwyddiad arwyddocaol h.y. oedolyn mewn perygl yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu pan amheuir hynny.

2.2. Prif ddiben adolygiadau ymarfer, fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015, yw nodi unrhyw gam y gellir ei gymryd gan bartneriaid Bwrdd Diogelu neu gorff arall i wella ymarferion amlasiantaeth i amddiffyn oedolion.

2.3. Er bod adolygiadau yn amrywio o ran ehangder a chymhlethdod mae'n rhaid eu cynnal mewn modd amserol. Dylid lledaenu'r gwersi a ddysgwyd yn sgil adolygiadau ymarfer yn effeithiol a dylid gweithredu ar unrhyw argymhelliad ar unwaith er mwyn sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol, pan fo'n bosibl, yn arwain at ddiogelu oedolion rhag dioddefaint a niwed yn y dyfodol. Nid oes yn rhaid aros tan ddiwedd yr adolygiad i weithredu ar y gwersi a ddysgwyd.

2.4. Nid yw adolygiadau ymarfer yn ymchwiliadau i niwed neu farwolaeth oedolyn, nac i'r unigolyn sydd ar fai. Mae'r rhain yn faterion i'r crwneriaid a'r llysoedd troseddol benderfynu arnynt.

2.5. Nid yw adolygiadau ymarfer yn rhan o broses ddisgyblu nac ymchwiliad i ymarferwyr unigol. Pan ddaw gwybodaeth i'r amlwg wrth gynnal adolygiad ymarfer sy'n galw am gamau disgyblu, dylid gwneud ar wahân ac yn unol â gweithdrefnau disgyblu'r sefydliad cyflogi. Mae'n bosibl y bydd y prosesau hyn yn cael eu cynnal ar yr un pryd ond ar wahân. Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd angen cymryd camau disgyblu ar unwaith er mwyn diogelu oedolion eraill rhan niwed neu ddioddefaint.

3.0. Diogelu Oedolion Eraill

3.1. Pan fo oedolyn yn marw neu'n cael niwed sylweddol, a phan amheuir camdriniaeth neu esgeulustod, blaenoriaeth gyntaf sefydliadau lleol yw ystyried ar unwaith a oes oedolion eraill yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed ac felly angen eu diogelu (aelodau eraill o'r teulu neu oedolion eraill yn y lleoliad). Pan fo pryderon o'r fath, dylid dilyn gweithdrefnau amddiffyn a diogelu oedolion lleol.

4.0. Adolygiadau Cryno

4.1. **Mae'n rhaid** i Fwrdd Diogelu gomisiynu adolygiad ymarfer oedolion cryno pan **nad yw** oedolyn mewn perygl, ar unrhyw adeg yn ystod y chwe mis cyn dyddiad y digwyddiad, wedi bod yn berson y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w ddiogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol, a phan fo wedi:

- Marw
- Cael anaf sy'n bygwth bywyd
- Dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd

5.0. Adolygiadau Estynedig

5.1. **Mae'n rhaid** i Fwrdd Diogelu gomisiynu adolygiad ymarfer oedolion estynedig pan fo oedolyn mewn perygl, ar unrhyw adeg yn ystod y chwe mis cyn dyddiad y digwyddiad, wedi bod yn berson y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w ddiogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol, a phan fo wedi:

- Marw
- Cael anaf sy'n bygwth bywyd
- Dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd

6.0. Atgyfeirio Achos i'w Ystyried ar gyfer Adolygiad Ymarfer

6.1. Gall unrhyw aelod o'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, asiantaeth neu ymarferydd unigol gyda chefnogaeth ei reolwr atebol, godi pryderon ynghylch achos lle credir bod y meini prawf uchod yn cael eu bodloni. Mae modd derbyn cyngor (ond nid o reidrwydd) gan yr aelod bwrdd asiantaeth cyn atgyfeirio.

6.2. Bydd Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn gallu cynghori gweithwyr proffesiynol amlasiantaeth ar y broses ac unrhyw amheuaeth o ran bodloni'r meini prawf.

6.3. Dylid gwneud pob atgyfeiriad yn ysgrifenedig yn defnyddio ffurflen atgyfeirio berthnasol y Bwrdd. Cyfrifoldeb y sawl sy'n atgyfeirio yw casglu'r holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar gyfer yr atgyfeiriad cychwynnol.

6.4. Mae modd i'r asiantaeth sy'n atgyfeirio dderbyn cyngor, arweiniad a chefnogaeth (os nad yw'n awdurdod lleol) gan Arweinydd Diogelu'r Awdurdod Lleol ac Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

6.5. Er mwyn hysbysu'r broses o wneud penderfyniad ac i gynorthwyo gyda chwmpasu unrhyw Adolygiad Ymarfer Oedolion cytunedig, mae'n bwysig bod yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion yn derbyn gwybodaeth gywir a chryno gyda'r holl fanylion gofynnol gan bob sefydliad. Yng ngogledd Cymru mae gan awdurdodau lleol rôl graidd wrth gefnogi'r broses hon.

6.6. Pan fo achos yn hysbys i'r Awdurdod Lleol mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael ganddo yn barod felly, pan fo asiantaeth arall yn atgyfeirio, bydd modd i Arweinydd Diogelu'r Awdurdod Lleol gefnogi'r asiantaeth honno i gasglu'r holl wybodaeth berthnasol.

6.7. Cydnabyddir bod modd cynnal trafodaethau mewn fforymau eraill, megis Cyfarfodydd Cynllunio Achos a Grwpiau Cyflawni Ymarfer Lleol, o fewn cyd-destun amlasiantaethol cyn y caiff achos ei atgyfeirio at Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion Rhanbarthol. Fodd bynnag, ni ddylai trafodaethau o'r fath atal na rhwystro asiantaethau rhag atgyfeirio'n uniongyrchol at yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion Rhanbarthol. Yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Chadeirydd y Bwrdd, fel y nodir yn y Canllawiau Statudol, sy'n atebol am wneud penderfyniad ynghylch Adolygiad Ymarfer Oedolion.

6.8. Mae unrhyw drafodaeth a phenderfyniad yn sgil gwersi a ddysgwyd a buddion ar ôl cynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion yn fater i'r Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Chadeirydd y Bwrdd Gweithredol yn bennaf.

Pan ystyrir fod achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion cryno neu estynedig fel y nodir uchod, dylid bob tro atgyfeirio'r achos at yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion Rhanbarthol.

6.9. Dylai atgyfeiriad o'r fath gael ei gyfeirio at Uned Fusnes y Bwrdd a fydd yn sicrhau bod Cadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Statudol perthnasol yn cael gwybod amdano. Yna, dylid anfon yr atgyfeiriad ymlaen at Gadeirydd yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion ar gyfer ystyriaeth.

6.10. Dylid anfon pob atgyfeiriad ar e-bost at Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu i regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk a bydd pob achos yn cael dynodwr rhanbarthol e.e. *BDOGC (AYO Rhif)2017/Awdurdod Lleol/Sefydliad.* Dylid cysylltu â'r dynodwr pan fo gennych chi ohebiaeth sy'n ymwneud â'r achos. Bydd Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yna anfon yr atgyfeiriad at Gadeirydd yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion er mwyn ystyried yr achos ac adolygu'r wybodaeth.

Bydd penderfyniad yr Is-grŵp o ran sut i fynd ymlaen ar ôl derbyn atgyfeiriad yn cael ei anfon gan Gadeirydd yr Is-grŵp fel argymhelliad at Gadeirydd y Bwrdd.

6.11. Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cysylltu â'r Is-grŵp i'w hysbysu o'r penderfyniad i gefnogi neu wrthod yr argymhelliad i gynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion ac yn rhoi gwybod am hynny i'r Bwrdd yn ogystal. Os yw Cadeirydd y Bwrdd yn gwrthod yr argymhelliad i gynnal adolygiad, yna dylid rhoi gwybod i'r Bwrdd a dylid cynnal trafodaeth bellach. Os mai "na" yw'r penderfyniad terfynol, bydd yn rhaid i Gadeirydd y Bwrdd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gan nodi'r rhesymau ac unrhyw farn wrthdrawiadol.

6.12. Pan fo atgyfeiriad at yr Is-grŵp yn cynnwys materion diogelu sydd angen sylw neu gamau gweithredu brys, mae'n gyfrifoldeb bob asiantaeth i sicrhau y rhoddir sylw i'r materion.

7.0. Rôl yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion Rhanbarthol

7.1. Mae'r Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion Rhanbarthol yn bwyllgor sefydlog sy'n goruchwylio ac yn sicrhau ansawdd adolygiadau ymarfer oedolion a gynhelir gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Mae hefyd yn darparu cyngor i Gadeirydd y Bwrdd o ran a yw'r meini prawf ar gyfer cynnal adolygiad wedi eu bodloni.

7.2. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol yn ogystal â chynrychiolwyr partneriaid statudol a'r sector annibynnol.

7.3. Mae'r Is-grŵp hwn yn ystyried pob achos sy'n cael ei atgyfeirio ar gyfer adolygiad ymarfer oedolion ac yn gwneud argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd ar ran y Bwrdd yn unol â chanllawiau statudol.

7.4. Pan fo'r Is-grŵp o'r farn nad yw achos yn bodloni meini prawf Adolygiad Ymarfer Oedolion cryno nac estynedig, gall argymell bod yr achos yn cael ei ystyried ar lefel leol gan Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol gan ei fod yn gallu ymateb yn fwy cymesur nag Adolygiad Ymarfer Oedolion. Bydd Grwpiau Cyflawni Ymarfer Lleol yn gyfrifol am ystyried yr argymhelliad i gynnal Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol, a reolir yn lleol.

7.5. Bydd yr Is-grŵp, gyda chefnogaeth y Grŵp Cyflawni Ymarfer Lleol, hefyd yn monitro gweithrediad y cynlluniau gweithredu yn dilyn cwblhau'r adolygiad. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Is-grŵp ar y camau canlynol:

- Tri mis
- Chwe mis
- Naw mis
- Deuddeg mis

7.6. Os nad yw'r cynllun gweithredu wedi ei gwblhau ar ôl deuddeg mis, bydd diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol a fydd yn cytuno ar amserlen ar gyfer cwblhau. Ni fydd unrhyw gynllun gweithredu yn anghyflawn wedi dwy flynedd.

8.0. Rôl y Grwpiau Cyflawni Ymarfer Lleol

8.1. Derbynnir na ddylai achos nad yw'n cael ei drafod gan Grŵp Cyflawni Ymarfer Lleol atal na rhwystro asiantaethau rhag atgyfeirio'n uniongyrchol at yr Is-grŵp.

8.2. Fodd bynnag, gall trafod o fewn cyd-destun amlasiantaethol yn ystod cyfarfodydd Grwpiau Cyflawni Ymarfer Lleol fod yn briodol ac fe all hefyd gynorthwyo ymarferion cwmpasu ar gyfer unrhyw wybodaeth berthnasol. Bydd hefyd yn ffordd i rannu gwybodaeth ymarferwyr lleol mewn fforwm agored.

8.3. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol pan nad yw achosion yn eglur a phan fo angen trafodaeth gadarn o ran a ddylai achos gael ei atgyfeirio at yr Is-grŵp.

8.4. Yr Is-grŵp a Chadeirydd y Bwrdd, fel y nodir yn y Canllawiau Statudol, sy'n atebol am wneud penderfyniad ynghylch Adolygiad Ymarfer Oedolion.

8.5. Bydd y Grwpiau Cyflawni Ymarfer Lleol yn arwain y gwaith o gydlynu'r Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol

8.6. Bydd y Grwpiau Cyflawni Lleol yn monitro gweithrediad cynlluniau gweithredu yn yr ardal Awdurdod Lleol honno ymhob cyfarfod.

9.0. Rôl Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

9.1. Rôl Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yw cefnogi'r Is-grŵp, Cadeirydd y Bwrdd a'r Bwrdd gyda'u rolau hwy. Mae'r Uned Fusnes yn bwynt cyswllt canolog ar gyfer pob achos ar draws y rhanbarth sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion arfaethedig. Bydd hyn yn creu trywydd archwilio clir ar draws y rhanbarth sy'n cefnogi'r Bwrdd i arolygu atgyfeiriadau a chanlyniadau; ac i sicrhau bod unrhyw wers a ddysgwyd yn sgil Adolygiad Ymarfer Oedolion yn cael ei rhannu mewn modd cadarn ac amserol.

9.2. Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn ceisio hyrwyddo ac annog trothwy cyson ar draws y rhanbarth o ran atgyfeiriadau a gyflwynir i'r Is-grŵp.

9.3. Bydd yr Uned Fusnes yn arolygu'r holl Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol a gynhelir ar draws y rhanbarth ac yn cynnal adolygiad blynyddol o weithgareddau Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol a fydd wedi ei gynnwys yng nghynllun blynyddol y Bwrdd.

10.0. Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth

10.1. Os yw'r Is-grŵp wedi penderfynu, a bod y penderfyniad hwnnw wedi ei gefnogi gan Gadeirydd y Bwrdd ar ran y Bwrdd, mai'r dull adolygu priodol yw cynnal Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol, yna'r Grŵp Cyflawni Ymarfer Lleol perthnasol fydd yn gyfrifol am y broses hon.

10.2. Mae Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth yn broses leol y tu allan i'r Is-grŵp a dylid ei chwblhau o fewn tri mis. Ni adroddir canlyniadau Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol i'r Is-grŵp na'r Bwrdd. Bydd y Grwpiau Cyflawni Lleol yn adrodd ar y canlyniadau dysgu a sut bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu'n lleol drwy Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Bwrdd ac adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cyflawni Ymarfer Lleol.

11.0. Adolygiadau neu Ymchwiliadau a gynhelir ar yr un pryd

11.1. Mae sawl cyfrifoldeb statudol i adolygu marwolaethau a digwyddiadau difrifol ar draws y bartneriaeth ddiogelu amlasiantaeth. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau dynleiddiaid domestig, gwasanaethau iechyd meddwl gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn dilyn dynladdiad ac Adolygiad Digwyddiad Difrifol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

11.2. Mewn achosion o'r fath, dylai'r Is-grŵp:

- Ystyried y cyfleoedd a'r trefniadau posibl i gydlynu'r adolygiadau gyda'r cyrff eraill sy'n gysylltiedig
- Trafod gyda'r cyrff hynny a chytuno ar sut y bydd adolygiad a gomisiynir neu a gydlynir ar y cyd yn mynd i'r afael â'r canlyniadau hynny sydd angen eu cyflawni, yn y ffordd fwyaf effeithiol ac amserol
- Ystyried cydadolygiad, neu ychwanegu cwestiynau ychwanegol at gylch gorchwyl yr adolygiadau

- Sicrhau bod budd unigolyn wastad wedi ei gynnwys yn briodol mewn ymchwiliadau i ymarferion
- Darparu argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd o ran sut i fynd ymlaen yn unol â chanllawiau statudol

Cwynion neu Anghydfod yn sgil Adolygiadau Ymarfer

BDOGC: Bydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn parhau i ddilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru *'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 3: Adolygiadau Ymarfer Oedolion'* ar gyfer prosesu adolygiadau ymarfer rhanbarthol.

Bydd unrhyw gŵyn neu anghydfod yn cael ei brosesu yn unol â pholisi cwynion y Bwrdd.

Rhestr Atodiadau

- **Atodiad 1** Siart Llif Adolygiad Ymarfer Oedolion
- **Atodiad 2** Atgyfeiriad at Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion Gogledd Cymru i ystyried cynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion (templed)
- **Atodiad 3** Argymhelliad Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion Gogledd Cymru i Gadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Gogledd Cymru (templed)
- **Atodiad 4** Penderfyniad Cadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Gogledd Cymru i Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion Gogledd Cymru (templed)
- **Atodiad 5** Amlinelliad Cychwynnol o'r Adolygiad a'r Cylch Gorchwyl (templed)
- **Atodiad 6** Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion (templed)

Atodiad 1:

Siart Llif Adolygiad Ymarfer



Atodiad 2:

Atgyfeiriad at Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion Gogledd Cymru i ystyried cynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion

Cyf: **LA */2017(*********)**

Llythrennau cyntaf enw'r unigolyn dan sylw:	**Dyddiad Geni:**	**Dyddiad y farwolaeth / digwyddiad**
Gan:		**Dyddiad trafod yr achos gan y Grŵp Cyflawni Lleol:**
Dyddiad yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer:		

Amlinelliad bras o'r achos/digwyddiad *Cofiwch gynnwys statws cyfreithiol y person cyn y digwyddiad ac unrhyw gamau gweithredu brys a gymerwyd at ddibenion diogelu gan asiantaethau perthnasol.*

Rheswm dros y cais

Unrhyw wybodaeth berthnasol arall

Asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r achos *(e.e. Gwasanaethau Oedolion, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y Bwrdd Iechyd, yr Awdurdod Lleol, WAST, Iechyd Cyhoeddus Cymru, arall)*

I'w llenwi gan yr asiantaeth sy'n atgyfeirio:

Enw: Teitl:

Manylion cyswllt:

Atodiad 3:

Argymhelliad Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion Gogledd Cymru i Gadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Gan: xxxxx, Cadeirydd yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion

At: xxxxx, Cadeirydd Bwrdd Gweithredol CWMPAS

Cyf: LA */2017 (*********)

Dyddiad Is-grŵp Adolygu

Ymarfer:

Amlinelliad bras o'r achos

Argymhelliad
Mae'r Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion wedi ystyried y cais ac yn argymell ei fod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer:
Adolygiad cryno **Adolygiad**
Os nad yw'r meini prawf ar gyfer yr adolygiadau uchod wedi eu bodloni, pa brosesau adolygu amgen y mae modd eu cynnal?
Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol **Dim adolygiad** **Proses adolygu amgen**
Nodwch neu fanylwch ar y broses adolygu amgen e.e. Adolygiad Dynladdiad Domestig: …… ……

Penderfyniad		
Unfrydol		
Mwyafrif		(Cydbwysedd pleidleisiau.....)

Rheswm dros y penderfyniad/argymhelliad *Dylai hyn gynnwys:* • *Meini prawf* • *Yr adolygiadau a ystyriwyd* • *Yr adolygiadau amgen a ystyriwyd i ddiwallu anghenion yr achos* • *Sut y bydd anghenion unrhyw adolygiad arall yn cael eu cynnwys yn y cylch gorchwyl* • *Os yw'n benderfyniad gan y mwyafrif – eglurhad a chanlyniad*

Penderfyniad Cadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Gogledd Cymru i'r Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion

Ynglŷn â: LA */2017 (**********)

Dyddiad Is-grŵp Adolygu Ymarfer:

Rwyf yn cytuno â'r argymhelliad **Rwyf yn cytuno â'r argymhelliad gyda'r newidiadau canlynol:-**	
Rwyf yn anghytuno â'r argymhelliad *Os ydych yn anghytuno, nodwch pam a'r camau gweithredu arfaethedig:-*	

Llofnod:

Teitl: Cadeirydd

Dyddiad:

Rhif Ffôn:

Mewn trafodaeth â Chadeirydd yr Is-grŵp

Dyddiad cyflwyno'r wybodaeth i'r Bwrdd Diogelu ……..……

Dyddiad anfon yr wybodaeth at Lywodraeth Cymru ……

Amlinelliad Cychwynnol Arfaethedig o'r Adolygiad
(Dyma amlinelliad cychwynnol a fydd angen ei ddiweddaru wrth i'r adolygiad fynd rhagddo)

Ynglŷn â: NW */2017 (**********)Dyddiad Is-grŵp Adolygu
Ymarfer:

Cyfnod amser i'w gwmpasu gan yr adolygiad yn unol â chanllawiau

0-6 mis	☐	**6-12 mis**	☐

Rhesymeg dros y cyfnod amser

Mwy na 12 mis	☐

Os yw'n fwy na 12 mis – Gan fod hyn y tu allan i'r amserlen a argymhellwyd yn y canllaw, eglurwch y rhesymeg

Asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r achos sy'n cael ei adolygu

(gan gynnwys enw a dynodiad os yw'n hysbys)

Darparwr gofal	☐		Yr Heddlu	☐	
Tai	☐		Gwasanaeth Prawf	☐	
Bwrdd Iechyd Lleol	☐		Iechyd Cyhoeddus Cymru	☐	
Ymddiriedolaeth y GIG	☐		Gwasanaethau Cymdeithasol	☐	
Bwrdd Diogelu Arall	☐		Y Trydydd Sector	☐	
Arall (nodwch os ydych yn gwybod neu heb ei nodi)	☐				

Asiantaeth a nodwyd i Gadeirydd y Panel Adolygu

(gan gynnwys enw a dynodiad os yw'n hysbys)

Darparwr gofal	☐		Yr Heddlu	☐	
Tai	☐		Gwasanaeth Prawf	☐	
Bwrdd Iechyd Lleol	☐		Iechyd Cyhoeddus Cymru	☐	
Ymddiriedolaeth y GIG	☐		Gwasanaethau Cymdeithasol	☐	
Bwrdd Diogelu Arall	☐		Y Trydydd Sector	☐	
Arall (nodwch os ydych yn gwybod neu heb ei nodi)	☐				

A yw'r Cadeirydd yn annibynnol, h.y. heb gael unrhyw gysylltiad/ trosolwg o'r achos?	Ydi	☐	Nac Ydi	☐
Rhesymeg dros ddewis y Gadeirydd:				

Cylch Gorchwyl Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno / Estynedig

(Nodwch gyfeirnod ar gyfer yr adolygiad)

Bydd materion craidd sydd angen delio â nhw yng nghylch gorchwyl yr adolygiad yn cynnwys:

- Ymchwilio i waith rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaeth ar gyfer unigolyn drwy gylch gorchwyl diffiniedig
- Chwilio am gyfraniadau i'r adolygiad gan unigolyn/unigolion, ac aelodau priodol o'r teulu a'u hysbysu o unrhyw gynnydd allweddol
- Adnabod materion penodol ar gyfer eglurhad pellach *(Rhestru materion sy'n berthnasol i achos penodol)*
- Cynhyrchu adroddiad ar gyfer ei gyhoeddi a chynllun gweithredu

Tasgau Craidd

- Penderfynu a yw penderfyniadau a chamau gweithredu'r achos yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaethau dan sylw a'r Bwrdd
- Ymchwilio i waith rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaeth ar gyfer yr unigolyn a'r teulu
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu yn canolbwyntio ar yr unigolyn
- Chwilio am gyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a'u hysbysu o unrhyw gynnydd allweddol
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd ac yn gysylltiedig â'r achos
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau angenrheidiol

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Mynegol:

- Bydd Cydlynydd y Bwrdd yn gyfrifol am gynnal cysylltiadau gyda'r holl asiantaethau perthnasol, teuluoedd a rhai eraill sydd â diddordeb
- Bydd Cadeirydd y *Panel Adolygu* yn hysbysu Cadeirydd y Bwrdd ac Is-grŵp y Bwrdd o newidiadau arwyddocaol yng nghwmpas yr adolygiad, a bydd y cylch gorchwyl yn cael ei ddiweddaru'n unol â hynny
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau cyhoeddus, ac ymateb i unrhyw ddiddordeb yn y cyfryngau ynghylch yr adolygiad tan fydd y broses wedi ei chwblhau Rhagwelir na fydd unrhyw ddatgeliad cyhoeddus o wybodaeth ar wahân i'r Adroddiad Bwrdd Terfynol
- Bydd y Bwrdd a'r *Panel Adolygu* yn ceisio cyngor cyfreithiol ar bob mater sy'n berthnasol i'r adolygiad Yn benodol bydd hyn yn cynnwys cyngor am:
    - y cylch gorchwyl;
    - datgelu gwybodaeth;
    - canllaw i'r *Panel Adolygu* ar faterion sy'n ymwneud â chyfweld aelodau o staff unigol.

Tasgau Penodol i'r Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygwr/adolygwyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â'r canllawiau ar gyfer cynnal adolygiadau cryno ac estynedig
- Cytuno ar yr amserlen
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, llunio amserlen a chrynodeb cychwynnol o'r achos a nodi unrhyw gam gweithredu brys a gymerwyd
- Llunio amserlen gyfun, dadansoddiad cychwynnol a datblygu rhagdybiaethau
- Gyda'r adolygwr/adolygwyr, cynllunio digwyddiad dysgu i ymarferwyr gan nodi mynychwyr a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer derbyn adborth
- Gyda'r adolygwr/adolygwyr, nodi trefniadau cysylltu gyda'r unigolyn a'r teulu cyn y digwyddiad
- Derbyn ac ystyried yr adroddiad drafft ar yr adolygiad ymarfer oedolion i sicrhau bod gofynion y cylch gorchwyl wedi eu bodloni, bod y rhagdybiaethau cychwynnol wedi derbyn sylw ac i sicrhau bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad ac ar gynllun gweithredu amlinellol, a threfnu bod y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd eu hystyried a chytuno arnynt
- Trefnu i ddarparu adborth i'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad yn dilyn diwedd yr adolygiad a chyn ei gyhoeddi

Tasgau'r Bwrdd Diogelu Oedolion

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwynt dysgu i'w gynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu
- Y *Panel Adolygu* yn cwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu
- Y Bwrdd yn anfon yr adroddiad at asiantaethau perthnasol i dderbyn eu sylwadau terfynol cyn ei lofnodi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru
- Yr Is-grŵp Adolygu yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau i wasanaethau yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu
- Cyhoeddi'r dogfennau ar wefan y Bwrdd
- Cytuno ar ledaenu'r dogfennau i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau cyhoeddus ac am ymateb i unrhyw ddiddordeb yn y cyfryngau ynghylch yr adolygiad tan fydd y broses wedi ei chwblhau

Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd

Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif am adolygiadau ymarfer oedolion, mae gan bob asiantaeth ffiniau cytunedig ar gyfer cyfrinachedd. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau hynny ac yn cael ei chynnal gyda dealltwriaeth o'r canlynol:

- Bod cyfarfod y panel yn cael ei alw dan ganllawiau *'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 – Adolygiad Ymarfer Oedolion'* Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Bod datgelu gwybodaeth y tu allan i'r panel, y tu hwnt i'r hyn a gytunir arno yn y cyfarfod, yn torri cyfrinachedd yr unigolyn dan sylw a chyfrinachedd yr asiantaethau sy'n gysylltiedig

- Os teimlir bod datgelu gwybodaeth yn hanfodol, dylid derbyn caniatâd Cadeirydd y Panel a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sail egwyddor 'angen gwybod'
- Fodd bynnag, cyfrifoldeb Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yw cadarnhau a ddylai Panel Amlasiantaeth ddatgelu gwybodaeth i drydydd parti, ac mae'n rhaid cyfeirio'r achos at Reolwr Buses y Bwrdd i dderbyn awdurdod i ddatgelu gwybodaeth

Bydd datganiad o gyfrinachedd yn cael ei lofnodi ym mhob cyfarfod o'r Panel gan bawb sy'n bresennol i ailddatgan y ffiniau ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Mae'n rhaid i berchnogaeth yr holl wybodaeth a'r dogfennau gael ei chadarnhau er mwyn sicrhau derbyn y caniatâd priodol gan y sefydliad perthnasol cyn eu rhannu. Gall sefydliadau ond rhannu gwybodaeth y maent yn berchen arni neu sydd wedi tarddu ganddynt hwy.

Dylai cyfrifoldeb dros gadarnhau a chytuno ar geisio gwybodaeth gan bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol), ddod gan y Panel fel bo'n briodol.

Bydd holl aelodau'r Panel yn glynu at egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 wrth ddelio â gwybodaeth bersonol fel rhan o broses adolygu ymarfer oedolion.

□

Penodi Adolygwr sy'n Annibynnol o Reoli Achos

A oes adolygwr annibynnol yn mynd i gael ei benodi?	Oes	☐	Nac Oes	☐
A yw enw a dynodiad yr adolygwr annibynnol yn hysbys?	Ydi	☐	Nac Ydi	☐
*Os **ydi**, nodwch ddynodiad yr adolygwr annibynnol ac unrhyw wybodaeth ychwanegol):*				

Adolygiad Annibynnol o Reoli Achos – Adolygiad Estynedig

O ran adolygiad estynedig, bydd y cwestiynau craidd canlynol yn derbyn sylw yn unol â'r canllaw gan yr adolygwyr yng Nghylch Gorchwyl yr Adolygiad.

- A oedd yr wybodaeth berthnasol neu hanes blaenorol am yr oedolyn a/neu aelodau o'r teulu yn hysbys ac wedi ei ystyried yn asesiad, gwaith cynllunio a phenderfyniadau'r gweithwyr proffesiynol mewn perthynas â'r oedolyn, y teulu a'u hamgylchiadau? Sut mae'r wybodaeth honno wedi cyfrannu at y canlyniad i'r oedolyn mewn perygl?
- A oedd y camau gweithredu a nodwyd i ddiogelu'r oedolyn mewn perygl yn gadarn a phriodol ar gyfer yr oedolyn a'u hamgylchiadau?
- A oedd y camau gweithredu wedi eu gweithredu, eu monitro a'u hadolygu'n effeithiol, ac a oedd pob asiant wedi cyfrannu'n briodol at ddatblygiad a darpariaeth y camau gweithredu amlasiantaethol?
- Pa agweddau ar y camau gweithredu a weithiodd yn dda a pha agweddau na weithiodd cystal, a'r rheswm dros hynny? Y graddau y bu i'r asiantaethau herio ei gilydd ynghylch effeithiolrwydd y camau gweithredu, gan gynnwys cynnydd yn erbyn canlyniadau a gytunwyd arnynt ar gyfer yr oedolyn mewn perygl. A gafodd y protocol ar gyfer anghytundeb proffesiynol ei weithredu?
- A yw dyletswyddau statudol yr asiantaethau sy'n gweithio gyda'r oedolyn mewn perygl a'r teulu wedi eu cyflawni?
- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyriaeth o faterion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).

Hefyd gall materion perthnasol eraill mewn perthynas ag amgylchiadau'r achos gael eu nodi gan y Panel Adolygu a/neu'r adolygwyr.

Unrhyw gwestiwn penodol arall sy'n briodol i'w ofyn ar y cam hwn?

Amcangyfrif o gost (os yw'n hysbys) adolygwr annibynnol a sut y bydd y gost ac cael ei chwrdd	£ …….
Costau ychwanegol a nodwyd (os yw'n hysbys). Rhowch fanylion:	£ …….
Dyddiad arfaethedig cyfarfod cyntaf y Panel Adolygu	……

A fydd yr adroddiad yn cael ei gwblhau o fewn amserlen y canllaw? *h.y. 6 mis o ddyddiad yr atgyfeiriad*	Bydd	☐	Na Fydd	☐
Nodwch unrhyw fater a all effeithio ar yr amserlen a sut y bydd yn cael ei reoli:- e.e. erlyniad troseddol/penderfyniad y crwner.				

Dyddiad arfaethedig cwblhau'r adroddiad	……..

I'w lenwi gan Gadeirydd Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion:

Llofnod .....……..

Teitl .....

Dyddiad ……..

Rhif ffôn .....

Atodiad 6:

Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno/Estynedig *(dileer fel y bo'n briodol)* **Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru**

Ynglŷn â: BDOGC */2017 (Ardal Leol)

Amlinelliad bras o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad

Dylid cynnwys: -

- Y cyd-destun cyfreithiol a geir mewn canllawiau o ran pa adolygiad sy'n cael ei gynnal
- Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad
- Y cyfnod dan sylw a pham
- Amserlen gryno o'r digwyddiadau allweddol (fel atodiad)

Comisiynwyd adolygiad .... gan Fwrdd .... ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion yn unol â'r canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Bodlonir gofynion yr adolygiad hwn dan x:

(adroddiad dienw a chryno am yr amgylchiadau a oedd yn gofyn am adolygiad gan y Bwrdd)

Ymarfer a Dysgu Sefydliadol

Nodwch bob pwynt dysgu unigol yn sgil yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol ac amlinelliad bras o'r amgylchiadau perthnasol).

(Mae'n bosibl y bydd yr amgylchiadau sy'n cefnogi pob pwynt dysgu wedi eu dylanwadu arnynt gan yr hyn a ddysgwyd oddi wrth gyswllt y teulu gyda'r gwasanaethau gwahanol, safbwyntiau ymarferwyr a'u hasesiadau a'u camau gweithredu, safbwyntiau aelodau o'r teulu, tystiolaeth am ymarfer a'i effaith, ffactorau cyd-destunol a heriau)

Gwella Systemau ac Ymarfer
Er mwyn hyrwyddo'r dysgu yn sgil yr achos hwn mae'r adolygiad wedi nodi'r camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i asiantaethau yn ogystal â'r canlyniadau gwelliant a ragwelir:-
(beth sydd angen ei wneud yn wahanol yn y dyfodol a sut y bydd hyn yn gwella ymarfer a systemau i gefnogi ymarfer?)

Datganiad gan yr Adolygwr/Adolygwyr			
ADOLYGWR 1		**ADOLYGWR 2** ***(fel y bo'n briodol)***	
Datganiad annibyniaeth o'r achos *Sicrwydd Ansawdd datganiad cymhwyster*		**Datganiad annibyniaeth o'r achos** *Sicrwydd Ansawdd datganiad cymhwyster*	
Rwy'n cyflwyno'r datganiad canlynol cyn cyfrannu at yr adolygiad dysgu hwn:- • Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn na'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol i'r ymarferwr/wyr dan sylw. • Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant i ymgymryd â'r adolygiad. • Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd y gwaith dadansoddi a gwerthuso mewn perthynas â'r materion yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.		Rwy'n cyflwyno'r datganiad canlynol cyn cyfrannu at yr adolygiad dysgu hwn:- • Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn na'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol i'r ymarferwr/wyr dan sylw. • Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant i ymgymryd â'r adolygiad. • Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd y gwaith dadansoddi a gwerthuso mewn perthynas â'r materion yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.	
Adolygwr 1 *(Llofnod)*	.....	**Adolygwr 2** *(Llofnod)*	.....
Enw *(Print)*	.....	**Enw** *(Print)*	.....
Dyddiad	.....	**Dyddiad**	.....

Cadeirydd y Panel Adolygu *(Llofnod)*	.....
Enw *(Print)*	.....
Dyddiad	.....

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

Proses Adolygu Ymarfer Oedolion *Dylid cynnwys (yn fras):* • *Y broses a ddilynir gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu* • *Y digwyddiad dysgu a gynhaliwyd a'r gwasanaethau a fynychodd* • *Hysbyswyd aelodau o'r teulu, gofynnwyd am eu barn a chynrychiolwyd drwy'r digwyddiad dysgu a darparwyd adborth iddynt*
☐ Teulu wedi gwrthod cymryd rhan

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad y cafwyd yr wybodaeth .....

Dyddiad anfon llythyr cydnabyddiaeth at Gadeirydd y Bwrdd .....

Dyddiad cylchredeg i'r arolygiaethau/arweinwyr polisi perthnasol .....

Asiantaeth	**Do**	**Naddo**	**Rheswm**
AGGCC	☐	☐	
Estyn	☐	☐	
AGIC	☐	☐	
Arolygydd Cwnstabliaeth EM	☐	☐	
Arolygiaeth Prawf EM	☐	☐	